HEDDLU DE CYMRU / HEDDLU GWENT
DOGFEN BOLISI AR GYFER DEFNYDD AGORED O DECHNOLEG ADNABOD WYNEBAU A GYCHWYNNIR GAN WEITHREDWR (OIFR)

Marcio amddiffynnol:	Swyddogol
Cynllun cyhoeddi Oes/Nac oes:	Nac oes
Teitl:	dogfen bolisi ar gyfer defnydd agored o Dechnoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr (OIFR)
Fersiwn:	Fersiwn 0.4
Crynodeb:	Canllawiau ar Gynllun Peilot OIFR Heddlu De Cymru / Heddlu Gwent
Adran:	Is-adran Gwasanaethau Digidol
Dyddiad adolygu:	25/01/2022

Rheoli newid:

Fersiwn	Dyddiad	Awdurdod	Tystiolaeth o gymeradwyo	Cofnod o newid
0.1	01.06.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Drafft Cychwynnol
0.2	21.09.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Terminoleg genedlaethol
0.3	03.11.2021	Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau	Adolygiad Llywodraethu	Dim Diwygiadau

0.4	25.01.2022	Pennaeth yr Is-adran Gwasanaethau Digidol	Prif Uwch-arolygydd Simon Belcher	Cymeradwyo'r Cynllun Peilot Dim Diwygiadau

Tabl Cynnwys

1 Cyflwyniad, Nod a Chwmpas....3
2 Terminoleg....5
3 Trosolwg o OIFR....8
4 Bwriad Strategol, Amcanion a'r Achos dros Ddefnyddio'r Dechnoleg....10
5 Trosolwg o'r Defnydd o OIFR....14
6. Llywodraethu, Goruchwyliaeth ac Asesiadau Effaith....15
7 Cyrff Goruchwylio a'r Fframwaith Rheoleiddio....20
8 Ymgysylltu â'r Cyhoedd....22
9 Ystyriaethau o ran Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau....24
10 Canllawiau Dylunio ar gyfer OIFR....26
11 Camera'r Ddyfais OIFR a Defnyddio'r Camera....27
12 Metrigau Perfformiad Allweddol....28
13 Canllawiau OIFR Cryno....28

Termau a Diffiniadau: Bydd i dermau mewn priflythrennau a ddefnyddir yn y Ddogfen Bolisi hon ar OIFR yr ystyr a roddir iddynt yn adran 3 o'r ddogfen hon oni chânt eu diffinio fel arall.

1 Cyflwyniad, Nod a Chwmpas

Cyflwyniad

1.1 Mae OIFR yn helpu Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent i adnabod pobl y maent yn chwilio amdanynt am droseddau ac mae'n helpu i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â sut mae OIFR yn gweithio a sut mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ei defnyddio yn adran 4 (Trosolwg o OIFR).

1.2 Mae'r Ddogfen Bolisi hon ar OIFR yn rhoi cyngor i bersonél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ar ddefnydd agored o OIFR mewn ffordd foesegol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith er mwyn galluogi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i gyflawni nodau plismona dilys.

1.3 Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin yn benodol â nifer o feysydd sy'n achos pryder a nodwyd ar lefel leol a chenedlaethol. Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd yn ymwybodol o safbwyntiau ac ystyriaethau parhaus y Comisiynydd Gwybodaeth, y Comisiynydd Biometreg a'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, ac maent yn awyddus i gefnogi'r broses o ddatblygu canllawiau cenedlaethol a/neu god ymarfer ynglŷn ag OIFR a'r defnydd y mae asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith yn y DU yn ei wneud ohoni.

Nod a Chwmpas

1.4 Nod y canllawiau hyn yw: -

a) rhoi gwybodaeth i bersonél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ac aelodau o'r cyhoedd am amcanion strategol, gweithredol a thechnolegol presennol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ar gyfer y defnydd agored o OIFR, fel y bydd yn galluogi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i gyflawni eu dibenion gorfodi'r gyfraith a chydymffurfio ag argymhellion allweddol (yr Amcanion);

b) rhoi arweiniad i bersonél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ar y ffordd y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn defnyddio OIFR mewn mannau cyhoeddus a phreifat er mwyn cyflawni amcanion Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o ran OIFR;

c) sefydlu'r strwythur llywodraethu ar gyfer defnyddio OIFR, gan sicrhau bod y defnydd y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ei wneud ohoni yn cael ei lywodraethu'n briodol ac yn cydymffurfio â'r gyfraith;

d) rhoi trosolwg o OIFR a chynghori ar faterion ymarferol megis defnyddio camera ffôn symudol (Dyfais OIFR) er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau gan OIFR.

Heb ei Gwmpasu

1.5 Mae mathau eraill o dechnoleg adnabod wynebau nad yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â nhw. Mae hyn yn cynnwys Adnabod Wynebau Ôl-weithredol (RFR). Cyfeirir at adnabod wynebau ôl-weithredol hefyd fel 'ôl-ddigwyddiad' yn aml, sy'n ymwneud â chwilio delweddau yn erbyn cronfa ddata nad yw'n digwydd mewn amser real. Hefyd, adnabod wynebau byw yw'r defnydd amser real o dechnoleg adnabod wynebau, sy'n cymharu ffrwd/ffrydiau camera byw o wynebau yn erbyn rhestr wylio/rhestrau gwylio a bennwyd ymlaen llaw er mwyn dod o hyd i bersonau o ddiddordeb drwy gynhyrchu rhybudd pan nodir cyfatebiad posibl.

1.6 I grynhoi, nid yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r canlynol:-

a) gweithgarwch adnabod wynebau â llaw ar gyfer chwilio delweddau fideo / delweddau llonydd yn ôl-weithredol; na

b) gweithgarwch adnabod wynebau byw gan ddefnyddio camerâu teledu cylch cyfyng; nac

c) y fframwaith cyfreithiol sy'n gymwys i'r defnydd y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ei wneud o OIFR – manylir ar hyn ar wahân yn Nogfen Mandad Cyfreithiol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent.

Dogfennau Ychwanegol

1.7 Mae sawl dogfen ar gael i ategu'r canllawiau hyn, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:-

a) Gweithdrefn Weithredu Safonol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent

b) Asesiad Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o Effaith OIFR ar Ddiogelu Data

c) Mandad Cyfreithiol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent

d) Dogfennau Polisi Priodol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent

e) Asesiad Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o Effaith OIFR ar Gydraddoldeb

f) Dogfennau Hyfforddiant OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a'u Canllawiau i Ddefnyddwyr.

2 Terminoleg

2.1 Yn Nogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, mae'r termau a'r diffiniadau canlynol yn gymwys mewn perthynas ag OIFR:-

Templed Biometrig
Cynrychioliad digidol o nodweddion yr wyneb a dynnwyd o'r ddelwedd o'r wyneb. Y templedi hyn (ac nid y delweddau eu hunain) a ddefnyddir at ddibenion chwilio ac sy'n cynnwys data personol biometrig. Noder bod y templedi yn perthyn yn benodol i bob algorithm adnabod wynebau a bydd angen cynhyrchu templedi newydd o'r delweddau gwreiddiol os caiff algorithm y Dechnoleg Adnabod Wynebau ei newid.

Delwedd o'r Unigolyn
Delwedd o berson yn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.

Ffactorau Amgylcheddol
Elfennau allanol sy'n effeithio ar berfformiad OIFR megis golau gwan, golau llachar, glaw, niwl ac ati.

System technoleg adnabod wynebau
Meddalwedd a gweinydd technoleg adnabod wynebau sydd wedi'u lleoli ar safle Heddlu De Cymru sy'n ymgymryd â'r elfen o OIFR sy'n ymwneud ag adnabod wynebau (creu Templedi Biometrig a'u cymharu).

Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau
Set o Ddelweddau o Unigolion hysbys a ddelir yn gyfreithlon y mae Delwedd Chwilota yn ei chwilio.

Cyfatebiad
Bydd cyfatebiad pan fydd y Gweithredwr, ar ôl gweld y Cyfatebiadau Posibl, o'r farn y gellir adnabod y Testun fel yr un person a ddangosir yn y Ddelwedd o'r Unigolyn.

Dim Cyfatebiad
Mae'r Gweithredwr yn penderfynu o ganlyniad i weld y Delweddau o Unigolion a/neu Gyfatebiadau Posibl.
nad yw'r unigolyn wedi cael ei adnabod yn llwyddiannus.

Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr (OIFR)
Y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau pan fo:
(i) cyfryngau yn cael eu cofnodi'n uniongyrchol o Destun sy'n bresennol; neu
(ii) cyfryngau yn cael eu caffael fel arall yn lle eu cofnodi,

gyda'r bwriad o'u dadansoddi drwy ddefnyddio'r system technoleg adnabod wynebau. Gallai canlyniadau proses ddadansoddi o'r fath ddylanwadu ar ddigwyddiadau y mae'r ffilm yn ymwneud â nhw mewn amser real.

Y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau a gychwynnir gan weithredwr sy'n cofnodi delwedd o berson penodol ac yn ei defnyddio i naill ai (i) helpu'r heddlu i ganfod pwy yw person yn y

ddelwedd neu (î) cadarnhau ble mae person wedi ymddangos o'r blaen mewn cyfryngau eraill a ddelir gan yr heddlu

Dyfais OIFR
Dyfais ffôn symudol o eiddo'r heddlu a ddefnyddir i gychwyn ar ymholiad OIFR.

Gweithredwr
Y swyddog sy'n gweithredu OIFR, sy'n gyfrifol am gadarnhau'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio OIFR ac ystyried Delweddau o Unigolion ar gyfer Cyfatebiadau Posibl. Bydd y swyddogion hyn hefyd yn helpu aelodau o'r cyhoedd drwy ateb cwestiynau a'u helpu i ddeall diben a natur OIFR.

Unigolyn (unigolion) o Ddiddordeb
Mae'r term hwn yn cynnwys personau ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.

Delwedd Chwilota
Delwedd o wyneb a ddefnyddir i chwilio yn erbyn Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.

Cyfatebiad Posibl
Mae Gweithredwr o'r farn mai'r un unigolyn sydd yn y Ddelwedd o'r Unigolyn a'r Ddelwedd Chwilota, gan arwain at chwilio mynegeion yr heddlu ymhellach.

Sgôr Tebygrwydd
Dyma'r gwerth rhifiadol sy'n dangos pa mor debyg yw'r Ddelwedd Chwilota a'r Ddelwedd o'r Unigolyn i'w gilydd, gyda sgôr uwch yn dynodi mwy o debygrwydd rhyngddynt.

Uwch-Swyddog Cyfrifol
Mae'n rheoli'r defnydd o OIFR yn strategol. Bydd yn cydgysylltu â swyddogion ar reng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru/Heddlu Gwent yn ôl yr angen.

Testun
Yr unigolyn y mae'r Gweithredwr yn cofnodi delwedd ohono i'w chymharu drwy OIFR.

Ffactor Testun
Ffactor sy'n gysylltiedig â'r unigolyn, er enghraifft, ffactorau demograffig neu nodweddion corfforol neu ymddygiadau er enghraifft, mae'r unigolyn yn gwisgo penwisg, yn smygu, yn bwyta, neu'n edrych i lawr ar adeg cofnodi delwedd.

Ffactor System
Ffactor sy'n ymwneud ag OIFR a system technoleg adnabod wynebau megis yr algorithm.

3 Trosolwg o OIFR

OIFR yng nghyd-destun gorfodi'r gyfraith

3.1 Mae OIFR yn helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i adnabod pobl y maent yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau ac mae'n helpu i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

3.2 Mae OIFR yn ein helpu i adnabod y rhai sy'n achosi risg o niwed iddyn nhw eu hunain neu i eraill. Caiff delweddau a gofnodir drwy ddefnyddio OIFR eu chwilio yn erbyn Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau o bobl y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt neu yr amheuir, yn seiliedig ar gudd-wybodaeth, eu bod yn peri risg o niwed iddyn nhw eu hunain neu i eraill.

3.3 Mae OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau yn gweithio drwy ddadansoddi nodweddion allweddol yr wyneb i greu cynrychioliad mathemategol ohonynt (Templed Biometrig). Yna, caiff y cynrychioliad hwn ei gymharu ag wynebau hysbys mewn Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau er mwyn adnabod Cyfatebiadau Posibl ar gyfer Personau o Ddiddordeb. Pan gaiff nodweddion yr wyneb o ddwy ddelwedd eu cymharu, mae'r rhaglen technoleg adnabod wynebau yn cynhyrchu Sgôr Tebygrwydd, sef gwerth rhifiadol sy'n dangos pa mor debyg yw'r delweddau i'w gilydd, gyda sgôr uwch yn dynodi mwy o debygrwydd rhyngddynt. Caiff y chwe Delwedd debycaf o'r Unigolyn eu dychwelyd i'r Gweithredwr. Fel hyn, mae OIFR yn gweithio i helpu personél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i adnabod pobl yn hytrach na gweithredu fel proses beiriannol annibynnol heb unrhyw fewnbwn gan ddefnyddwyr.

OIFR a Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent

3.4 Bydd cynllun peilot o OIFR yn cael ei gynnal dros gyfnod o dri mis, a fydd yn cynnwys 60 o swyddogion o amrywiol gefndiroedd plismona. Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn credu bod OIFR yn adnodd plismona gwerthfawr sy'n helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i gadw'r cyhoedd yn ddiogel a chyflawni eu dyletswyddau plismona o dan y gyfraith gyffredin, sy'n cynnwys atal a chanfod troseddau, cadw trefn a dwyn troseddwyr gerbron llys barn.

3.5 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ble y gall OIFR gynorthwyo Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent â'u dibenion plismona:-

a) Helpu i ddod o hyd i bobl y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau a'u harestio;

b) Helpu i adnabod pobl y mae cudd-wybodaeth amdanynt i awgrymu y gallent beri risg iddyn nhw eu hunain neu i eraill (e.e. stelcwyr, terfysgwyr, unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu risg uwch ac ati);

c) Cefnogi'r defnydd o dactegau plismona ataliol wedi'u targedu mewn ardaloedd lle mae cudd-wybodaeth yn awgrymu y gallai troseddau treisgar gael eu cyflawni.

3.6 Er bod defnydd priodol o OIFR yn cynnig gwerth amlwg i awdurdodau gorfodi'r gyfraith yn y DU a'r cyhoedd yn ei dro, mae'n bwysig cydnabod bod y defnydd o OIFR yn golygu gweithgarwch prosesu biometrig. Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ymwybodol o'r ffaith y bydd y defnydd o OIFR yn destun llawer o drafod. Mae'r meysydd sy'n debygol o fod yn destun trafod a chraffu'n benodol yn ymwneud ag ymyrraeth â rhyddidau sifil, y posibilrwydd o ddefnydd sy'n anghytbwys tuag at bersonau nad ydynt yn gallu deall cais swyddogion am wybodaeth bersonol (h.y. Testunau ag anawsterau dysgu neu wladolion tramor) a'r posibilrwydd o brosesau gwneud penderfyniadau awtomataidd o ganlyniad i ddefnyddio OIFR.

3.7 Felly, mae dyletswydd ar Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i sicrhau bod OIFR yn cael ei defnyddio mewn ffordd gyfreithlon a chyfrifol at ddibenion plismona dilys, ac mewn modd sy'n dryloyw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad yw'r defnydd o OIFR yn amharu ar ymddiriedaeth na hyder y cyhoedd.

3.8 Wrth geisio mynd i'r afael â phryderon posibl eraill, mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi hwyluso ymchwil academaidd annibynnol i OIFR, ac wedi mynd ati i ymgysylltu â grwpiau â diddordeb mewn rhyddidau sifil a Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Gwent.

3.9 Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi gwrando'n ofalus ar lawer o bartïon â diddordeb yn y defnydd o OIFR ac wedi ystyried pa fesurau diogelwch sy'n angenrheidiol i gefnogi'r defnydd o OIFR. Mae pryd a ble y gellir defnyddio OIFR wedi cael eu dylunio'n ofalus ac mae amcanion clir wedi'u dogfennu. Mae'n rhaid i'r Uwch-Swyddog Cyfrifol sicrhau bod y defnydd strategol yn amlwg yn mynegi cyfreithlondeb, angenrhaid a chymesuredd.

3.10 Mae'n rhaid i'r Uwch-Swyddog Cyfrifol hefyd fodloni ei hun bod y Gweithredwyr sy'n rhan o gynllun peilot OIFR wedi cael eu hyfforddi a'u briffio'n briodol a'u bod yn atebol yn briodol.

3.11 Mae'n rhaid i'r Uwch-Swyddog Cyfrifol hefyd ystyried sut y gall cynllun peilot OIFR effeithio ar gymunedau yn eu cyfanrwydd, a sut mae hawliau pawb y mae'r defnydd o OIFR yn debygol o gofnodi ei ddelwedd wedi cael eu hystyried, a pha fesurau diogelwch sydd ar waith i'w hamddiffyn.

3.12 Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent nid yn unig yn awyddus i ddatblygu a gweithredu tactegau plismona sy'n diogelu'r cyhoedd mor effeithiol â phosibl, ond hefyd i sicrhau y caiff effaith tactegau newydd, megis OIFR, ei monitro. Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn rhoi proses lywodraethu gadarn ar waith i adolygu effeithiolrwydd ac effaith cynllun peilot OIFR. Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn canolbwyntio ar sicrhau tryloywder a byddant yn cyflawni hyn drwy ymateb i weithgarwch craffu yn ogystal â mynd ati i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a'u cynnwys, gan gynnwys pobl o gymunedau de Cymru fel rhan o broses barhaus.

3.13 Bydd y ddogfen ganllaw hon yn parhau i ddatblygu er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, rheoliadau, technoleg a defnydd a dderbynnir.

4 Bwriad Strategol, Amcanion a'r Achos dros Ddefnyddio'r Dechnoleg

4.1 Mae'n rhaid i'r defnydd o OIFR gydymffurfio â'r bwriadau strategol a'r amcanion gweithredol canlynol.

Bwriadau Strategol

4.2 Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent:-

a) yn gwneud defnydd agored o OIFR mewn ffordd gyfrifol i adnabod troseddwyr ac unigolion sy'n agored i niwed yn unol â phwerau plismona Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o dan y gyfraith gyffredin. Mae hyn yn cynnwys targedu unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau.

b) yn cydymffurfio â'r gyfraith gyffredin a mesurau diogelwch statudol wrth gyflawni ei ddyletswyddau plismona gweithredol a bydd yn dibynnu ar y gyfraith gyffredin i gyflawni nifer o'i ddyletswyddau. Gall OIFR gynorthwyo â dyletswyddau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i ddiogelu bywyd ac eiddo, cadw'r drefn ac atal bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd, atal a chanfod troseddau, dwyn troseddwyr gerbron llys barn a chynnal diogelwch gwladol. Mae hyn yn cynnwys targedu unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau. Mae hefyd yn cynnwys defnyddio OIFR i ddiogelu'r cyhoedd, gostwng troseddu a helpu i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed.

c) yn atgyfnerthu ac yn datblygu gallu OIFR i ddiogelu'r cyhoedd, gostwng troseddu difrifol, helpu i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed a chadw De Cymru a Gwent yn ddiogel.

d) yn ennyn ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y broses o ddatblygu, rheoli a defnyddio OIFR drwy ystyried pryderon ynglŷn â phreifatrwydd a sicrhau cymaint o dryloywder â phosibl;

e) yn cynnal trefniadau llywodraethu da drwy strwythur rheoli sy'n ymgorffori arweinwyr strategol, gweithredol a thechnegol ar gyfer y defnydd o OIFR, gyda phrosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd clir;

f) yn sicrhau y caiff OIFR ei defnyddio'n unol â'r holl ofynion cyfreithiol cymwys, a'i bod yn bodloni'r fframwaith goruchwylio a rheoleiddio fel y'i hamlinellir ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr gan y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, y Comisiynydd Gwybodaeth a Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent;

g) yn nodi, yn rheoli ac yn lleihau'r risg i enw da Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a risg sefydliadol mewn ffordd dryloyw;

h) yn cael eu cydnabod fel sefydliadau cyfrifol, blaengar a moesegol;

i) caiff canlyniadau'r cynllun peilot eu hystyried gan yr Uwch-Swyddog Cyfrifol ynghyd â gwerthusiad academaidd pellach cyn i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ystyried unrhyw ddefnydd pellach o OIFR.

Amcanion Gweithredol

4.3 Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent:-

a) yn defnyddio OIFR i alluogi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i arfer eu pwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin. Mae hyn yn cynnwys yr angen i fynd i'r afael â'n blaenoriaethau gweithredol pennaf megis troseddau treisgar. Bydd OIFR yn cynyddu cyfleoedd gorfodi a arweinir gan gudd-wybodaeth, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyllyll a throseddau sy'n ymwneud â drylliau, cam-drin plant yn rhywiol, terfysgaeth a helpu i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed. Bydd hefyd yn helpu i adnabod y rhai y mae'r llysoedd yn awyddus i'w dal neu sydd wedi torri amodau eu mechnïaeth;

b) yn mabwysiadu dull gweithredu cadarn a chymesur o ymgysylltu ag unigolion sy'n cael eu hadnabod ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau a'u hymlid, gan ddefnyddio prosesau gwneud penderfyniadau dynol. Mae goruchwyliaeth y Gweithredwr yn weithredol, gyda'r Gweithredwr yn cadw rheolaeth lawn ac yn gwneud y penderfyniad a ddylid cymryd camau ai peidio;

c) yn ymgysylltu â chymunedau ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt, gan wrando ar bryderon ac ymateb iddynt;

d) yn parhau i nodi ac adolygu risgiau sy'n berthnasol i OIFR, yn lliniaru'r risgiau hynny, ac yn dilyn cynllun ymateb os bydd y camau lliniaru yn methu;

e) yn dysgu'r gwersi o gynllun peilot OIFR i ganfod sut y gellir gwella OIFR.

Amcanion Technolegol

4.4 Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent:-

a) yn sicrhau bod holl dechnoleg OIFR yn addas at y diben ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol yn unol â'r bwriadau strategol a'r amcanion gweithredol;

b) yn parhau i oruchwylio a gwerthuso'n dechnegol effeithiolrwydd y dechnoleg fel tacteg blismona er mwyn rhoi pwysau ar droseddwyr treisgar a throseddwyr eraill;

c) yn chwilio am welliannau technolegol a pharhau i adolygu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ar yr un pryd. Lle y bo'n briodol, byddwn yn treialu darparwyr amgen meddalwedd a chaledwedd adnabod wynebau ochr yn ochr â'n darpariaeth bresennol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn ceisio'r gwasanaeth gorau posibl ac yn gallu mynd ati'n rhagweithiol i wella methodolegau gweithio a chywirdeb. Caiff canlyniadau unrhyw dreial cyfochrog eu cofnodi drwy ddefnyddio'r un metrigau perfformiad allweddol a gesglir wrth ddefnyddio OIFR er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau yn addas i'w cymharu'n uniongyrchol a'u dadansoddi. Nid effeithir ar unrhyw gyfnodau cadw a nodwyd yn flaenorol. Ni chaiff gwybodaeth bersonol a brosesir fel hyn ei rhannu ag unrhyw unigolyn trydydd parti arall.

Yr achos dros ddefnyddio'r dechnoleg

4.5 Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r defnydd agored o OIFR i helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i ddiogelu'r cyhoedd. Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn parhau i adolygu'r defnydd o OIFR er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gael ei defnyddio fel adnodd effeithiol i ymladd yn erbyn troseddu.

4.6 Mae OIFR yn helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i ddefnyddio eu hadnoddau'n fwy effeithlon. Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o'r farn bod OIFR yn well na bodau dynol o ran adnabod personau o set ddata fawr (miloedd fel arfer) a chysylltu â Chyfatebiad Posibl yn gyflym, a hefyd ddarparu gwybodaeth a nododd pam y gallant fod o ddiddordeb i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, gan gynnwys unrhyw risgiau posibl a achosir gan y Testun.

4.7 Bydd y lleoliadau lle y defnyddir OIFR yn destun adolygiad manwl o hyd. Caiff OIFR ei defnyddio mewn ardaloedd lle mae gan y dechnoleg y potensial mwyaf i helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i gyflawni eu dyletswyddau gweithredol.

4.9 O ystyried bod gofyn i Weithredwr OIFR adolygu pob Delwedd o Unigolyn er mwyn penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach, bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent bob amser yn defnyddio OIFR mewn ffordd sy'n weithredol effeithiol ac sy'n galluogi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i weithredu ar unrhyw Ddelweddau o Unigolion wrth iddynt gael eu cofnodi. Ni chaiff OIFR ei defnyddio ar hap.

5 Trosolwg o'r Defnydd o OIFR

Y Broses o'r Dechrau i'r Diwedd

5.1 Gellir crynhoi'r broses o ddefnyddio OIFR o'r dechrau i'r diwedd fel a ganlyn:-

a) Ni ddylid defnyddio OIFR yn lle dulliau adnabod traddodiadol, megis cael sgwrs â'r unigolyn sydd wedyn yn rhoi ei enw sy'n cael ei gymharu â mynegeion yr heddlu i'w adnabod. Lle bynnag y bo modd, dim ond ar ôl i'r Gweithredwr ryngweithio â'r Testun y dylid defnyddio OIFR.
b) Dim ond pan na fydd y Testun yn hysbys ac mae o leiaf un o'r **rhesymau** a'r **seiliau** dros ei defnyddio yn gymwys y caiff OIFR ei defnyddio.
c) Caiff OIFR ei defnyddio yn y cam cudd-wybodaeth a gwybodaeth o'r Model Gwneud Penderfyniadau Cenedlaethol.
d) Caiff OIFR ei defnyddio i helpu i gadarnhau pwy yw Testun a/neu roi'r risgiau posibl a achosir gan y Testun.
e) Caiff OIFR ei defnyddio i gefnogi tactegau plismona eraill yn hytrach na'u disodli, gan gynnwys pwerau chwilio a/neu bŵer i arestio.

5. 2 Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â ble a phryd y gall Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ddefnyddio OIFR.

Pwyntiau Allweddol

a) Mae OIFR yn defnyddio delweddau o bobl a gofnodir gan y Gweithredwr.
b) Mae'r defnydd o gamera OIFR yn ystyriaeth hollbwysig er mwyn sicrhau delwedd o'r wyneb o ansawdd addas.
c) Mae ansawdd a manylder delweddau (y rhai yn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau a'r rhai o gamera'r Ddyfais OIFR) yn hollbwysig ac mae'n rhaid eu hystyried yn ofalus.
d) Mae angen cyfiawnhau cynnwys unigolion ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau yn seiliedig ar egwyddorion anghenraid a chymesuredd.
e) Mae'n bwysig cydbwyso amcanion y defnydd o OIFR â maint y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau a'r adnodd sydd ar gael i ymateb i Gyfatebiadau Posibl.

Plismona'r Defnydd o OIFR yn Effeithiol

5.3 Mae'n rhaid bod digon o adnoddau staffio wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn gallu ymateb i Gyfatebiadau Posibl. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y system technoleg adnabod wynebau, a'r data y mae'n eu prosesu, yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

5.4 Mae'n hollbwysig hefyd fod Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn dryloyw o ran eu defnydd o OIFR o dan y canllawiau hyn. Drwy ddarparu digon o swyddogion wedi'u hyfforddi, bydd modd ateb cwestiynau a all fod gan y cyhoedd.

6. Llywodraethu, Goruchwyliaeth ac Asesiadau Effaith

6.1 Ar ôl ymgynghori, mae'r amodau canlynol wedi cael eu cynnig a'u derbyn gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent:-

a) Mae'n rhaid bod y buddiannau cyffredinol i'r cyhoedd fod yn ddigon mawr i gydbwyso'n ddigon unrhyw ddiffyg ymddiriedaeth o bosibl ymhlith cyhoedd;

b) Gellir dangos na fydd y dechnoleg ei hun yn arwain at amrywiadau annerbyniol mewn cywirdeb o ran rhyw, oedran neu hil;

c) Mae'n rhaid bod y defnydd strategol o OIFR yn cael ei asesu a'i awdurdodi'n briodol, gan ddangos ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben plismona penodol;

d) Mae Gweithredwyr yn cael hyfforddiant i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r feddalwedd, gan gynnwys sut y gellir achosi anghyfiawnder o bosibl drwy ymatebion amhriodol, a'u bod yn atebol am eu gweithredoedd;

e) Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn datblygu ac yn cynnal trefniadau llywodraethu a goruchwylio cadarn sy'n cydbwyso manteision technolegol OIFR â'i natur ymwthiol o bosibl. Bydd y trefniadau hyn yn bodloni gofyniad Strategaeth Fiometrig y Swyddfa Gartref am dryloywder, a hefyd yn ystyried canllawiau gan y Comisiynwyr a'r Rheoleiddwyr perthnasol. Bydd y trefniadau hefyd yn canolbwyntio ar roi cyfundrefn arolygu, archwilio a gorfodi cydymffurfiaeth fewnol dryloyw a gweladwy ar waith.

Fframwaith Llywodraethu

6.2 Mae dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ymdrin â'r amodau a nodir uchod. Caiff y defnydd o'r dechnoleg ei lywodraethu a'i oruchwylio drwy gynnal strwythur rheoli hierarchaidd: -

a) Mae gan Uwch-Swyddog Cyfrifol reolaeth strategol dros gynllun peilot OIFR. Bydd yr Uwch-Swyddog Cyfrifol yn cydgysylltu â swyddogion ar reng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Gwent.

b) Mae Prif Uwch-arolygydd yr Adran Gwasanaethau Digidol yn cadeirio'r Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau a Biometreg ac mae'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu effeithiol ac atebolrwydd am gynllun peilot OIFR.

c) Mae gan swyddog arweiniol Prosiect Technoleg Adnabod Wynebau'r Adran Gwasanaethau Digidol reolaeth dactegol dros gynllun peilot OIFR ac mae'n gyfrifol am ei gweithredu'n dactegol. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y defnydd o OIFR a'r ffordd y caiff ei gweithredu'n dactegol yn dal i fod yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur drwy gydol cynllun peilot OIFR, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd y mesurau diogelwch sydd ar waith pan fydd OIFR yn cael ei defnyddio.

6.3 Mae Pwyllgor Moeseg Heddlu De Cymru yn ffynhonnell annibynnol o gyngor. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys rhoi cyngor a darparu goruchwyliaeth annibynnol ar gyfer Heddlu De Cymru mewn perthynas â materion moesegol a hyrwyddo ystyriaethau moesegol o fewn fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol.

6.4 Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Gwent yn chwarae rôl allweddol i graffu ar OIFR a'i goruchwylio fel rhan o egwyddor ehangach dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif ar ran y cyhoedd.

6.5 Mae sawl dogfen benodol arall gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent mewn perthynas â defnyddio OIFR wedi cael ei chwblhau. Nodir y rhain isod: -

Dogfennau allweddol sydd ar gael i'r cyhoedd	**Gwybodaeth a gynhwyswyd**
Mandad Cyfreithiol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent	• Y sail gyfreithlon dros brosesu data mewn perthynas ag OIFR. Gan gynnwys mewn perthynas â'r canlynol: o Pwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin o Deddf Hawliau Dynol 1998 o Deddf Cydraddoldeb 2010 o Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 o Deddf Diogelu Data 2018 • Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Dogfen Bolisi OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent	• Bwriad ac amcanion strategol amlinellol ar gyfer defnyddio OIFR a'r ffordd y caiff data personol eu defnyddio gan y system adnabod wynebau byw • Cyfnodau cadw data sy'n gymwys i'r OIFR
Prosesau Gweithdrefnau Gweithredu Safonol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent	• Mesurau amlinellol sy'n berthnasol wrth ystyried pryd y gall Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ddefnyddio OIFR. o Ystyriaethau o ran Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau gan gynnwys ar ba sail y gellir ychwanegu delweddau at y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau ac ystyriaethau sy'n berthnasol i ffynonellau delweddau nad ydynt yn dod o'r heddlu.
Asesiad Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o Effaith OIFR ar Ddiogelu Data	• Mae'n disgrifio natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y gweithgarwch prosesu. • Mae'n asesu rheidrwydd, cymesuredd a mesurau cydymffurfiaeth. • Mae'n nodi ac yn asesu risgiau i unigolion.

	Mae'n nodi unrhyw fesurau ychwanegol i liniaru'r risgiau hynny.
Dogfennau Polisi Priodol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent	• Mae'n esbonio sut y bydd gweithgareddau prosesu data sensitif yn cydymffurfio â'r gofynion yn Rhan 3, adran 42 o Ddeddf Diogelu Data 2018. • Mae'n esbonio sut y caiff data categori arbennig eu prosesu o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data • Mae'n esbonio sut mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith ac egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'n amlinellu polisïau ar gadw a dileu data personol.
Asesiad Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o Effaith OIFR ar Gydraddoldeb	• Mae'n hyrwyddo pob agwedd ar gydraddoldeb. • Mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith, gan ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol.

Defnydd Gweithredol

6.6 Mae'n rhaid i drefniadau gael eu gwneud i gofnodi dyddiadau, amseroedd a lleoliadau defnydd yn gywir.

6.7 Mae'n rhaid i'r Uwch-Swyddog Cyfrifol sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud i barhau i adolygu OIFR drwy gydol cynllun peilot OIFR. Mae angen i'r Uwch-Swyddog Cyfrifol fod yn fodlon: -

a) bod y defnydd o OIFR yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur at y dibenion plismona a nodwyd;

b) bod y mesurau diogelwch a nodwyd yn parhau'n effeithiol;

c) bod lefel cymorth swyddogion a neilltuir ar gyfer defnyddio OIFR yn ei gwneud yn bosibl ymateb i Gyfatebiadau Posibl yn effeithiol;

d) bod y Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a'r Amgylchedd yn golygu bod y defnydd o OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau yn parhau'n effeithiol o ran cyflawni'r diben plismona a nodwyd.

6.8 Gall amgylchiadau godi sy'n golygu bod angen cyfyngu ar gynllun peilot OIFR neu ei ohirio. Mae gan yr Uwch-Swyddog Cyfrifol y pŵer i atal neu derfynu cynllun peilot OIFR a hynny yn ôl ei ddisgresiwn llwyr. Rhoddir rhagor o fanylion yn y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer OIFR.

6.9 Sut bynnag, mae'n rhaid i'r Uwch-Swyddog Cyfrifol gynnal a chofnodi adolygiad o'r gweithgarwch ar adegau addas yn ystod cynllun peilot OIFR. Yr Uwch-Swyddog Cyfrifol fydd yn penderfynu ar amseriad ac amlder yr adolygiadau. Dylai cyfnod addas gael ei bennu yng nghyd-destun cynllun peilot OIFR. Dylai'r adolygiad hwn ymdrin â chyfreithlondeb, anghenraid a chymesuredd parhaus cynllun peilot OIFR, yn ogystal â rhoi rhywfaint o ddadansoddiad ar berfformiad OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau a chanlyniadau OIFR.

6.10 Mae'n rhaid i ganlyniad y defnydd o OIFR gael ei werthuso, a ddylai, yn ei dro, fwydo i mewn i'r prosesau goruchwylio a chraffu.

6.11 Ar ôl defnyddio OIFR, mae'n rhaid i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent sicrhau y caiff unrhyw ddata personol sy'n gysylltiedig ag OIFR eu prosesu'n gyfreithlon ac yn unol â Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae hyn yn cynnwys: -

a) bod y ddelwedd o'r unigolyn fel y'i cofnodwyd gan OIFR (Delwedd Chwilota) yn cael ei dileu ar y Ddyfais OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau ar unwaith;

b) bod y Templed Biometrig o'r Ddelwedd Chwilota yn cael ei ddileu yn y system technoleg adnabod wynebau ar unwaith.

6.12 Llyfr Nodiadau Poced Electronig – cadw gwybodaeth bersonol yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (a nodwyd yn yr Adolygiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y Llyfr Nodiadau Poced), heb gynnwys y Ddelwedd Chwilota.

7 Cyrff Goruchwylio a'r Fframwaith Rheoleiddio

7.1 O fewn Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, yr uwch-gorff goruchwylio mewnol ar gyfer OIFR yw Bwrdd Rhaglen Technoleg Adnabod Wynebau a Biometreg Heddlu De Cymru, sydd, yn ei dro, yn atebol i Fwrdd Aur Heddlu De Cymru. Hefyd, mae Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Gwent hefyd yn rhoi safbwynt goruchwylio a chraffu allanol.

7.2 Mae Mandad Cyfreithiol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o OIFR, ac mae Dogfen Bolisi OIFR a Gweithdrefn Weithredu Safonol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cefnogi'r broses o'i rhoi ar waith.

7.3 Yn genedlaethol, mae Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn goruchwylio'r defnydd gweithredol o dechnoleg adnabod wynebau o fewn Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith yn y DU.

7.4 Gall cyfleoedd goruchwylio pellach godi mewn perthynas â'r 'Cyd-fwrdd Strategol Cenedlaethol ar gyfer Biometreg'. Mae hwn yn cael ei gyd-gadeirio gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ac Adran Data a Hunaniaeth y Swyddfa Gartref, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, y Comisiynydd Biometreg a Phrif Gynghorydd Gwyddonol Cenedlaethol yr Heddlu. Rhagor o fanylion am y
rolau hyn: -

a) Y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth; Rôl y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth yw hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r cod ymarfer ar gyfer camerâu gwyliadwriaeth, adolygu sut mae'r cod yn gweithio, rhoi cyngor i weinidogion ar b'un a oes angen newid y cod ai peidio.

   Ewch i www.gov.uk/government/organisations/surveillance-camera-commissioner;

b) Y Comisiynydd Biometreg; Mae'r Comisiynydd yn annibynnol ar y Llywodraeth a'i rôl yw adolygu'r ffordd y mae'r heddlu yn defnyddio ac yn cadw data biometrig yn rheolaidd. Mae'r Comisiynydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau gan yr heddlu i gadw proffiliau DNA ac olion bysedd ac yn adolygu penderfyniadau ynghylch diogelwch gwladol a wneir neu a adnewyddir gan yr Heddlu mewn cysylltiad â chadw proffiliau DNA ac olion bysedd. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Cartref ar y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau.

   Gweler: www.gov.uk/government/organisations/biometrics-commissioner;

c) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal hawliau i wybodaeth er budd y cyhoedd, gan sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd agored a phreifatrwydd data ar gyfer unigolion.

Rhaid i'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data gydymffurfio ag Adrannau 35 – 40, (Egwyddorion 1 – 6) ac Adran 64 o Ddeddf Diogelu Data 2018 a dylid ei rannu â Swyddfa'r Comisiynydd Data.

Ewch i www.gov.uk/government/organisations/information-commissioners-office;

d) Prif Gynghorydd Gwyddonol Cenedlaethol yr Heddlu; rôl y Prif Gynghorydd Gwyddonol yw rhoi cyngor i Brif Swyddogion yr Heddlu ar bob agwedd ar bolisïau gwyddoniaeth a thechnoleg.

Gweler www.gov.uk/government/groups/chief-scientific-advisers

8 Ymgysylltu â'r Cyhoedd

8.1 Mae'n rhaid i'r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd gael ei hategu gan y defnydd o adnoddau ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd, a ddylai fod yn seiliedig ar strategaeth i'r wasg a'r cyfryngau sy'n rhoi rhybudd ymlaen llaw o gynllun peilot OIFR. Wrth ddefnyddio OIFR a lle y bo'n ymarferol, dylai gwybodaeth, gan gynnwys manylion yr Hysbysiad Preifatrwydd, gael ei dosbarthu a dylid gofyn am adborth drwy e-bost.

8.2 Dylai briffiadau gweithredol a roddir i swyddogion a rhanddeiliaid cyn defnyddio OIFR hyrwyddo bod yn agored â'r cyhoedd ac yn dryloyw am y defnydd o OIFR. Dylid annog swyddogion i ymgysylltu â'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae OIFR yn helpu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel a'r ffordd y mae'n helpu i ddwyn troseddwyr gerbron llys barn. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i swyddogion fod â hysbysiadau yn eu meddiant y gellir eu dosbarthu i'r cyhoedd. Dylai hysbysiadau o'r fath gyfleu negeseuon allweddol pwysig sydd â'r nod o ennyn ymddiriedaeth a hyder drwy wella dealltwriaeth.

8.3 Efallai y bydd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gael eu gwahodd i arsylwi ar y broses gynllunio a defnyddio OIFR.

Cyn defnyddio OIFR

8.4 Cyn cynllun peilot OIFR, dylid sicrhau'r canlynol: -

a) Caiff y cyhoedd ei hysbysu am gynllun peilot OIFR drwy ddefnyddio gwefan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a sianeli cyfathrebu priodol eraill (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol);

b) caiff llenyddiaeth ei pharatoi ar gyfer Testunau (a fydd yn cynnwys gwybodaeth a amlinellir mewn hysbysiad preifatrwydd);

c) caiff Gweithredwyr eu briffio ar eu pwerau a'r cyfyngiadau ar y pwerau hynny. Yn benodol, rhaid nodi'n glir nad oes unrhyw bŵer i fynnu cydweithrediad unigolyn o ran tynnu llun ohono, oni chyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer arestio, neu oni bai bod Arolygydd neu swyddog lefel uwch wedi awdurdodi arfer y pŵer o dan adran 60AA o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i Gwnstabl mewn lifrai orfodi unigolyn i dynnu unrhyw beth sy'n cuddio pwy ydyw;

d) caiff gweithgarwch ymgysylltu allanol ei ystyried mewn trafodaeth gyda thîm technoleg adnabod wynebau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Gall fod yn briodol manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff ymgynghori neu adolygu moesegol cyhoeddus.

Defnyddio OIFR

8.5 Yn ystod cynllun peilot OIFR dylid sicrhau: -

a) bod hysbysiadau sy'n rhoi esboniad cryno a chyfeiriad at wefan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ar gael i'w dosbarthu i'r cyhoedd ar gais;

b) bod Testunau yn cael gwybodaeth yn unol â'r polisi y cyfeirir ato uchod.

Ar ôl defnyddio OIFR

8.6 Ar ôl defnyddio OIFR dylid sicrhau: -

a) bod gwybodaeth am y defnydd o OIFR, gan gynnwys lleoliad, amser, dyddiad, ymgysylltu, canlyniad ac unrhyw wybodaeth arall a ystyrir yn ddefnyddiol ac yn addas i'w datgelu, yn cael ei chofnodi yn Llyfr Nodiadau Poced Electronig y swyddog;

b) caiff gweithgarwch ymgysylltu allanol ei ystyried mewn trafodaeth gyda thîm technoleg adnabod wynebau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Unwaith eto, gall fod yn briodol manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff ymgynghori neu adolygu moesegol cyhoeddus. Mae'n bwysig bod gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei gydlynu ac felly mae'n rhaid ymgynghori â'r tîm technoleg adnabod wynebau cyn ymgymryd â gweithgarwch o'r fath.

9 Ystyriaethau o ran Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau

Ansawdd Delweddau

9.1 Mae perfformiad y system technoleg adnabod wynebau yn dibynnu'n fawr ar ansawdd y delweddau yn y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau. Y delweddau gorau yw lluniau a dynnwyd yn y ddalfa neu rai sy'n debyg i lun pasbort sy'n cydymffurfio â'r 'Police Standard for Still Digital Image Capture and Data Interchange of facial/Mugshot and Scar, Mark & Tattoo Images (full frontal face, neutral expression, uniform lighting and plain background)' a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona (NPIA). Ceir rhagor o fanylion yn y ddogfen PDF ymgorfforedig:

Llun Llonydd Safonol NPIA Delweddau Digidol.pdf

9.2 Pan fydd sawl delwedd o Destun ar gael, dylid ystyried cynnwys y rhain yn y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau lle y cyngorir y byddant yn ei gwneud yn fwy tebygol y gellir adnabod y rhai o ddiddordeb i Heddlu De/Heddlu Gwent.

Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau Hygyrch

9.3 Mae Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn rhoi sylwadau ar yr ystyriaethau cyfreithiol sy'n berthnasol i greu Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau mewn ffordd gyfreithlon. Mae hyn yn golygu ein bod yn sicrhau ein bod yn dal Delweddau o Unigolion yn gyfreithlon, bod cynnwys delwedd yn angenrheidiol ac yn gymesur, a'i bod yn cyflawni'r dibenion plismona a nodwyd.

9.4 Mae pwyntiau allweddol yn cynnwys sicrhau bod y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau wedi'i chyfyngu i'r maint sydd ei angen i gyflawni'r dibenion plismona a nodwyd, a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod y ddelwedd a ddefnyddir yn adnabod yn gywir yr unigolyn yr ystyrir ei gynnwys ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau. Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn rhoi canllawiau ymarferol ynglŷn â sut i ddilyn Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, gan gynnwys Mandad Cyfreithiol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent.

9.5 Bydd OIFR yn defnyddio lluniau Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent a dynnwyd yn y ddalfa a delweddau Heddlu De Cymru o unigolion coll. Mae Delweddau o Unigolion a'u Templed Biometrig cysylltiedig yn cael eu storio ar y system technoleg adnabod wynebau yn hytrach na dyfais symudol y swyddog.

Llywodraethu'r Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau

9.6 Caiff y systemau technoleg adnabod wynebau a ddefnyddir i greu Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau eu diogelu gan fesurau rheoli sy'n rhoi mynediad ar gyfer rolau penodol, ac mae'r rhai sy'n eu defnyddio yn cael hyfforddiant penodol ar eu rôl. Mae hyn yn cynnwys ymgyfarwyddo ag egwyddorion diogelu data.

9.7 Mae Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn rhoi mesurau i sicrhau bod y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn cael eu creu'n gyfreithlon, eu bod yn gyfredol, nad ydynt yn cael eu cadw y tu hwnt i'w diben ac mai dim ond at ddiben technoleg adnabod wynebau y cânt eu defnyddio.

Mynd i'r Afael ag Anghymesuredd

9.8 Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cadw dadansoddiad o Destunau y diffiniwyd eu hil, eu rhyw a'u hoedran gan swyddog.

9.9 Caiff y defnydd o OIFR ei ysgogi gan flaenoriaethau plismona Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, eu gwybodaeth a'u hasesiadau a arweinir gan gudd-wybodaeth, y mae'r naill a'r llall yn pennu ardal leol a'r diben plismona.

9.10 Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cydnabod bod angen sicrhau nad yw'r systemau na'r prosesau y dibynnir arnynt dangos rhagfarn annatod, ac yn y cyd-destun hwn nad ydynt yn rhoi unigolion o dan anfantais yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig. Mae profion manwl ar degwch y system wedi cael eu cynnal cyn cynllun peilot OIFR. Gweler yr Asesiad o Effaith OIFR ar Gydraddoldeb am ragor o fanylion.

9.13 Fel rhan o rwymedigaeth barhaus Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o ran Deddf Cydraddoldeb 2010, mae Heddlu De Cymru wedi comisiynu profion tegwch ar OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau. Pennir anghenraid ac amlder yn ôl ffactorau a allai effeithio ar berfformiad, gan gynnwys cyflwyno cyfarpar, meddalwedd neu algorithmau newydd a diwygiedig.

9.14 Pan gynhelir profion tegwch, ni chaiff unrhyw ddata biometrig sy'n perthyn i aelodau o'r cyhoedd eu cadw at ddibenion y profion.

9.15 Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i ochel rhag Ffactor System (rhagfarn system) sy'n effeithio ar y Delweddau o Unigolion a ddychwelir. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys y canlynol:-

a) mae'r rhai sy'n rhan o gynllun peilot OIFR yn monitro Delweddau o Unigolion a ddychwelir, Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun a'r System a Delweddau Chwilota drwy gydol y cynllun peilot. Pe bai pryderon yn codi nad yw OIFR yn perfformio'n gywir, bydd yr Uwch-Swyddog Cyfrifol yn atal cynllun peilot OIFR lle y bo angen;

b) er mwyn hwyluso adolygiadau ar ôl defnyddio OIFR, caiff elfennau o'r defnydd o OIFR eu cofnodi yn Llyfr Nodiadau Poced Electronig y swyddog. Mae'n rhoi cyfle arall i ystyried Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a'r Amgylchedd, Delweddau o Unigolion a ddychwelir ac effeithiolrwydd y mesurau diogelwch sydd ar waith ar gyfer OIFR, gan

gynnwys yr adolygiadau a gynhelir gan y rhai sy'n mynychu'r Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau a Biometreg a'r Uwch-Swyddog Cyfrifol;

c) os bydd adolygiadau ar ôl defnydddio OIFR yn nodi achos pryder, gall Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent gynnal rhagor o brofion ar amrywiadau cywirdeb demograffig lle mae'n ymddangos bod angen gwneud hynny.

10 Canllawiau Dylunio ar gyfer OIFR

10.1 Cyhoeddwyd safon ryngwladol newydd (ISO IEC 30137-1: `Use of biometrics with video surveillance systems, Part 1: System design and specification)' ym mis Mai 2019. Ewch i www.iso.org/standard/64935.html.

10.2 Mae prosesau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a'u canllawiau cysylltiedig wedi cael eu datblygu i gynnig modd dibynadwy o adnabod unigolion drwy ddefnyddio OIFR â chamerâu ffon symudol manylder uwch (8MP ac uwch). Er mwyn i system adnabod gyflawni'r canlyniadau dymunol, mae angen i bob elfen gael ei hoptimeiddio a rhyngweithredu'n gywir. Mae elfennau'r systemau hyn yn cynnwys y galedwedd, y feddalwedd, y Gweithredwr ac adnoddau plismona cysylltiedig ar lawr gwlad.

10.4 Bydd i system sy'n defnyddio technoleg adnabod wynebau byw lawer o elfennau. Nid ystyrir yr elfennau hynny nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r defnydd llwyddiannus o dechnoleg adnabod wynebau byw.
Mae elfennau uniongyrchol berthnasol yn cynnwys:-

a) camera'r Ddyfais OIFR, a'i defnyddio'n agos i wyneb y Testun a'r ongl;

b) yr amgylchedd lle mae'r camerâu yn gweithredu;

c) Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a metadata cysylltiedig;

d) y system technoleg adnabod wynebau sy'n canfod wynebau yn y ddelwedd, yn troi'r delweddau o wynebau yn dempledi, yn cymharu'r rhain â'r Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau ac yn rhoi gwybodaeth am ganlyniadau'r gymhariaeth i'r Gweithredwr;

e) y Gweithredu sy'n asesu'r Delweddau o'r Unigolyn ac yn penderfynu ar y camau gweithredu priodol;

f) digon o swyddogion i gefnogi'r defnydd o OIFR.

11 Camera'r Ddyfais OIFR a Defnyddio'r Camera

11.1 Mae'n rhaid i osodiadau camera'r Ddyfais OIFR gael eu dewis fel y gall manylder y ddelwedd, y maes gweledigaeth a pherfformiad golau lefel isel ddarparu delweddau o ansawdd digon da i'w defnyddio yn y system technoleg adnabod wynebau. Ar hyn o bryd, mae system technoleg adnabod wynebau fel arfer yn gofyn am ddelwedd o wyneb sy'n cynnwys rhwng 20 a 1000 picsel rhwng canol llygaid y Testun (Pellter rhwng y Llygaid) Dylai gwerthwr y system adnabod wynebau roi cyngor ar ofynion penodol ar gyfer ei system.

11.2 Oni bai bod yr amgylchedd yn cael ei reoli'n dda, rhaid i gamerâu allu gweithredu ag Ystod Ddynamig Eang er mwyn cynhyrchu delweddau o safon uchel o dan amrywiaeth o amodau goleuo.

11.3 Yn ddelfrydol, dylid gosod camerâu er mwyn recordio wynebau mor agos â phosibl i'r cyflwr ‘face-on’, yn debyg i lun pasbort.

11.4 Yn ddelfrydol, dylid rheoli'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod lefel y golau yr un fath ar bob rhan o wyneb y Testun. Dylid osgoi golau tra chyfeiriadol, er enghraifft golau cryf yr haul, lle y gallai fod angen ystyried sut y bydd y golau yn newid yn ystod y dydd.

11.5 O amodau golau gwan, bydd gosodiad awtomatig camera'r ffôn symudol yn ei gwneud yn bosibl i'r wyneb gael ei oleuo drwy ddefnyddio flacholau'r ffôn.

11.6 Yn ddelfrydol, dylai Testunau fod 1.5 i 2 fetr o gamera'r ffôn symudol pan gofnodir delwedd (bydd hyn hefyd yn caniatáu ar gyfer bwlch adweithiol i'r Gweithredwr).

12 Metrigau Perfformiad Allweddol

12.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â rhai o'r metrigau perfformiad allweddol y dylid eu casglu wrth ddefnyddio OIFR. Mae'n amlinellu'r gofynion sylfaenol ac felly mae'n ddigon posibl y bydd metrigau neu ddangosyddion ychwanegol yn berthnasol ac yn addas i'w casglu a'u dadansoddi.

12.2 Bydd Llyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr yn cofnodi manylion y defnydd o OIFR, gan gynnwys a fu Cyfatebiad ai peidio a'r canlyniad cysylltiedig.

12.3 Caiff y Sgôr Tebygrwydd ar gyfer pob Delwedd o Unigolyn a ddychwelir ei chofnodi i'w dadansoddi ac ni fydd ar gael i'r Gweithredwr.

12.4 Dylid nodi hefyd, ar gyfer cynllun peilot OIFR, y bydd y trothwy cyfluniadwy (y pwynt lle mae dwy ddelwedd sy'n cael eu cymharu yn arwain at ddychwelyd Delwedd o Unigolyn) ei ddefnyddio gyda'r chwe Delwedd debycaf o'r Unigolyn pryd bynnag y defnyddir OIFR.

12.5 Caiff Sgôr Tebygrwydd pob Delwedd o Unigolyn a ddychwelir ei chofnodi yn Llyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr.

13 Canllawiau OIFR Cryno

13.1 Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r defnydd gweithredol o OIFR, a'r cyfundrefnau llywodraethu a goruchwylio sydd eu hangen i gefnogi'r defnydd o OIFR.

13.2 Mae'n rhaid i swyddogion a staff ddilyn y canllawiau gan y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod defnydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o OIFR yn gwasanaethu'r cyhoedd yn llwyddiannus ac yn gyfreithlon tra'n cynnig y mesurau diogelwch angenrheidiol. Mae hefyd yn bwysig cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ogystal â'n partneriaid a rhanddeiliaid eraill.

13.1 Yn ddiau, bydd y canllawiau hyn yn datblygu wrth i dechnoleg newid a gwella ac wrth i wersi a ddysgwyd ddylanwadu ar yr hyn a ystyrir yn arferion da. Pan wneir penderfyniadau nad yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â nhw, mae'n hanfodol bod y penderfyniadau hyn yn cael eu dogfennu'n llawn, ynghyd â rhesymeg fanwl, a bod y penderfyniad perthnasol yn rhan o brosesau ôl-trafod a gwerthuso.